

Tasg 1

Beth yw Etholiad y Cynulliad?

1.

Darllenwch y gerdd rap

- unwaith gyda'r **athro'n unig** yn darllen ar goedd, a phawb arall yn gwranddo
- unwaith gyda'r **athro a'r dosbarth** yn darllen ar goedd
- unwaith gyda **grwpiau yn darllen penillion unigol** – mae 6 phennill, felly bydd angen chwe grŵp.

Pa mor anodd oedd darllen y gerdd rap? Dewiswch un:

- anodd iawn / anodd / hawdd / hawdd iawn

Ydy cerdd rap yn fwy o hwyl na cherdd arferol? Pam? / Pam lai?

2.

Dyma rai cwestiynau sydyn i weld faint o'r gerdd rap rydych chi wedi'i deall.

- i. Sawl Aelod Cynulliad sydd?
Ticiwch **1**.

50	
40	
60	
30	

- ii. Pa mor aml mae etholiad y Cynulliad?
Ticiwch **1**.

Bob dwy flynedd	
Bob tair blynedd	
Bob pedair blynedd	
Bob pum mlynedd	

- iii. Pwy sydd wedi bod yn rheoli yn y Cynulliad hyd yma?
Ticiwch **1**.

Y Ceidwadwyr	
Y Blaid Lafur	
Y Democratiaid Rhyddfrydol	
UKIP	

- iv. Pa oed mae'n rhaid i chi fod er mwyn gallu pleidleisio?
Ticiwch **1**.

Rhaid bod yn 21 oed er mwyn gallu pleidleisio	
Rhaid bod yn 19 oed er mwyn gallu pleidleisio	
Rhaid bod yn 18 oed er mwyn gallu pleidleisio	
Rhaid bod yn 16 oed er mwyn gallu pleidleisio	

- v. Sawl pleidlais sydd gan bawb sy'n pleidleisio?
Ticiwch **1**.

Un bleidlais i'r ymgeisydd lleol	
Un bleidlais i'r ymgeisydd yn y rhanbarth	
Dwy bleidlais i'r ymgeisydd lleol	
Dwy bleidlais: un i'r ymgeisydd lleol a'r llall i'r ymgeisydd yn y rhanbarth	

3.
Mewn parau, llenwch y tabl. Pa ddarnau o wybodaeth yn y gerdd yr oeddech chi'n eu **gwybod yn barod**, a pha ddarnau o wybodaeth a oedd yn **newydd** i chi? Rhwch nhw yn y golofn gywir. Mae un wedi'i wneud i chi; gobeithio eich bod chi'n gwybod y ffaith honno'n barod

Darnau o wybodaeth roedden ni'n eu gwybod yn barod	Darnau o wybodaeth newydd i ni
Mae'r Cynulliad yng Nghaerdydd.	

4.

Mae llawer o enwau lluosog yn y gerdd rap. **Heb edrych** yn ôl ar y gerdd, ceisiwch gofio beth ydyn nhw. Mae cliw enfawr i chi – yr enw unigol!

Enw unigol	Yr enw lluosog sydd yn y gerdd rap
1. sedd	
2. peth	
3. mesur	
4. tŷ	
5. deddf	
6. rhestr	
7. plaid	
8. democrat	

5.

Dewiswch a chopiwch un gair yn y trydydd pennill sy'n golygu 'heb fod yn barod i roi'r gorau iddi':

6.

Edrychwch ar y geiriau hyn o'r gerdd rap. Dyma'r pethau y mae Aelodau'r Cynulliad yn penderfynu arnyn nhw.

**Iechyd, Trafnidiaeth, Addysg, Diwylliant, Amaethyddiaeth, Twristiaeth,
Y Gwasanaethau Tân ac Achub, Datblygu Economaidd, yr Amgylchedd,
Coedwigaeth, Tai, Adeiladau Hanesyddol, y Gymraeg**

Os yw Aelodau'r Cynulliad yn gorfod penderfynu ar y pethau hyn, o dan ba gategori yn y bocs maen nhw'n perthyn? Trafodwch. Mae un wedi'i wneud i chi:

Mae'r Aelodau'r Cynulliad yn gorfod penderfynu:	Mae hyn yn dod o dan:
1. Faint o help mae ffermwyr Cymru yn ei gael?	Amaethyddiaeth
2. Faint o dai sy'n mynd i gael eu codi yng Nghymru?	
3. Ble mae angen ffordd gyflym, newydd?	
4. Sut mae cael mwy o ymwelwyr i ddod i Gymru?	
5. Oes gormod o orsafoedd tân yng Nghymru?	
6. Faint o arian sydd i gael rhagor o athrawon?	
7. Oes angen rhoi arian i'r Fenter Iaith leol?	
8. Sut mae cael rhagor o swyddi yng Nghymru?	
9. Faint o arian sydd i ofalu am gestyll Cymru, e.e. Castell Caernarfon?	
11. Oes angen cael rhagor o fforestydd yng Nghymru?	
10. Faint o arian sydd i gwmnïau drama, opera a dawns?	
12. Sut mae gwarchod tai os bydd llifogydd?	
13. Faint o ysbytai sydd eu hangen yng Nghymru?	

Heb edrych ar y tabl na'r gerdd, faint o'r geiriau sy'n gorffen ag –aeth rydych chi'n eu cofio? Ys-grifennwch nhw yma:

Mae geiriau sy'n gorffen ag –**aeth** yn fenywaidd. Mae rhai eithriadau, fel '**gwasanaeth**' a '**traeth**'. Felly, beth sy'n digwydd pan fydd **ansoddair** yn cael ei roi ar ôl y gair?

*Pa un sy'n gywir: gwybodaeth **pwysig** neu gwybodaeth **bwysig**?

7.

Gwaith ymchwilio:

i. Ym mha etholaeth rydych chi'n byw? Etholaeth

ii. Pwy yw ymgeiswyr y Cynulliad yn eich **etholaeth** chi?

Ymgeisydd y Ceidwadwyr:

Ymgeisydd y Blaid Lafur:

Ymgeisydd y Blaid Werdd:

Ymgeisydd y Democratiaid Rhyddfrydol:

Ymgeisydd Plaid Cymru:

Ymgeisydd UKIP:

Ymgeiswyr eraill:

iii. Beth oedd canlyniad etholiad diwethaf y Cynulliad, yn 2011, yn eich etholaeth a'ch rhan barth chi?

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgElectionElectionAreaResults.aspx-?EID=3&RPID=1751842315>

iv. Os ydych chi'n gwneud hyn ar ôl y pumed o Fai, 2016, beth oedd canlyniad etholiad 2016? Oes newid wedi bod?